**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced**

325/51

# ASTUDIAETHAU BUSNES

## BS5a

A.M. DYDD IAU, 14 Mehefin 2007

(1½ awr)

### DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn bydd angen:

- cyfrifiannell;
- llyfr ateb 12 tudalen.

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch yr **un** cwestiwn gorfodol yn y llyfr ateb a ddarperir ar wahân.

Fe'ch cynghorir i dreulio tua 30 munud yn darllen y wybodaeth a ddarperir a gwneud nodiadau bras cyn ateb y cwestiwn.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau.

Asesir ymgeiswyr yn ôl ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn yr atebion h.y. strwythuro a chyflwyno syniadau; eglurder mynegiant; sillafu, atalnodi a gramadeg. Rhoddir hyd at dri marc am y cyfathrebu ysgrifenedig.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

**1.** Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

***ONE COAL CCC***

*One Coal ccc* yw un o'r gweithredwyr mwyaf yn y DU ym maes codi glo. Mae'n cyflogi mwy na 4 000 o bobl yn y gwaith o gynhyrchu, gwerthu a dosbarthu glo a thanwyddau di-fwg ac mae'n cynnal miloedd mwy o swyddi sy'n ymwneud â chyflenwi cyfarpar, defnyddiau a gwasanaethau. Yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, cyhoeddodd y Prif Weithredwr fod y cwmni wedi dioddef colled o £5 miliwn yn y flwyddyn flaenorol.

Nid oedd popeth a drafodwyd yn y cyfarfod yn dywyll – roedd priswyr *(valuers)* annibynnol wedi gosod ffigur o £300 miliwn ar y tir yr oedd y cwmni'n berchen arno. Roedd *One Coal ccc* wedi recriwtio Cyfarwyddwr Eiddo i fod yn ben ar dîm i ddatblygu'r tir hwn er lles y cwmni. Y cyntaf o'r asedau tir hyn y byddai'r cwmni'n eu datblygu fyddai'r unig safle sydd ganddo yn Ne Cymru. Enw'r safle hwn yw *New Mill*.

Roedd *New Mill* wedi cael ei gau fel pwll glo gan *One Coal ccc* bum mlynedd yn ôl oherwydd problemau dan y ddaear a hefyd oherwydd hanes amgylcheddol gwael. Roedd papurau newydd lleol, fodd bynnag, yn dal yn llawn storïau am weithwyr a oedd wedi datblygu afiechydon difrifol oherwydd eu hamser yn gweithio ar y safle. Roedd pobl eraill yn yr ardal yn dal i gasáu'r cwmni am gau'r pwll a mynd â swyddi i ffwrdd o'r gymuned leol. Mae'r ardal o amgylch *New Mill* yn cynnwys rhai o'r tai gwaethaf yn Ne Cymru. Yn aml mae rhaglenni teledu cenedlaethol yn cynnig yr ardal fel enghraifft o gymuned ddirwasgedig gyda dwywaith cymaint â'r cyfartaledd cenedlaethol o ddiweithdra, cyfraddau uchel o droseddu a phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r bobl hynny sydd â swyddi yn tueddu i gymudo i'r trefi mawr a'r dinasoedd bymtheg milltir neu fwy i ffwrdd.

Yn ddiweddar mae *One Coal ccc* wedi ailysgrifennu'r nodau yn ei gynllun corfforaethol i bwysleisio ei ymrwymiad i'r canlynol:

- cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol;
- dychwelyd i broffidioldeb cyn gynted â phosibl;
- amrywiaethu *(diversifying)* ei weithrediadau.

Gyda'r cynllun corfforaethol newydd mewn golwg, mae *One Coal ccc* wedi nodi tri opsiwn ar gyfer safle *New Mill*. Dangosir y rhain isod.

- Gallai *One Coal ccc* ailddatblygu'r safle mewn menter ar y cyd â *United Waste ccc*, un o gwmnïau ailgylchu arbenigol y DU.
- Gallai *One Coal ccc* werthu'r safle i gwmni adeiladu tai yn y DU, sef *Lifestyle ccc*.
- Gallai *One Coal ccc* ailddatblygu'r safle fel parc adwerthu.

**Opsiwn Un – *United Waste ccc***

*United Waste ccc* yw un o'r cwmnïau mwyaf yn y DU ym maes rheoli gwastraff, ac mae'n gweithio gydag chynghorau lleol i ailgylchu sbwriel busnes a domestig. Ei fenter ar y cyd â *One Coal ccc* fyddai adeiladu a gweithredu canolfan ailgylchu i helpu cynghorau lleol i gyflawni'r targedau ailgylchu anodd a osodwyd gan y llywodraeth. Byddai'r ganolfan ailgylchu hon wedi'i hawtomeiddio i raddau helaeth iawn a dim ond ychydig o swyddi newydd fyddai'n cael eu creu.

Byddai *One Coal ccc* yn buddsoddi £14 miliwn yn *New Mill* ar gyfer y project hwn. Dangosir yn y tabl y rhagolwg mwyaf optimistaidd ar yr adenillion y byddai *One Coal ccc* yn disgwyl eu derbyn o'r buddsoddiad hwn dros gyfnod o ddeng mlynedd, ar ôl i'r ganolfan ailgylchu agor.

**Tabl 1**

| Blwyddyn | Adenillion ar y buddsoddiad i *One Coal ccc* (£) |
|---|---|
| Blwyddyn 1 | 0.3 miliwn |
| Blwyddyn 2 | 0.5 miliwn |
| Blwyddyn 3 | 0.8 miliwn |
| Blwyddyn 4 | 1.2 miliwn |
| Blwyddyn 5 | 1.7 miliwn |
| Blwyddyn 6 | 2.1 miliwn |
| Blwyddyn 7 | 2.8 miliwn |
| Blwyddyn 8 | 3.5 miliwn |
| Blwyddyn 9 | 4.4 miliwn |
| Blwyddyn 10 | 5.0 miliwn |

Er ei bod yn anodd cyfrifo'r ffigurau manwl gywir y tu hwnt i'r cyfnod hwn o ddeng mlynedd, roedd *One Coal ccc* yn hyderus y byddai proffidioldeb yn parhau i godi dros y pymtheg i ugain mlynedd dilynol.

Mae delwedd gyhoeddus *United Waste ccc* wedi cael ei hergydio'n wael yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch wedi ymchwilio i dân yn un o ffatrïoedd ailgylchu y cwmni yng Nghanolbarth Lloegr ac roedd y cwmni wedi cael ei ddirwyo. Mae'r cwmni wedi dioddef yn gyson o nifer o anghydfodau gyda'i weithwyr ac mae nifer o ddyddiau a gollwyd drwy weithredu diwydiannol yn uwch na chyfartaledd y diwydiant.

Roedd cryn wrthwynebiad i'r cynnig hwn gan lawer o bobl yn yr ardal o amgylch *New Mill*. Roedd carfan bwyso leol wedi llunio gwefan a ddisgrifiodd y llygredd posibl a allai ddigwydd fel trychineb i'r ardal. Roedd y llygredd hwn yn deillio nid yn unig o'r ganolfan ailgylchu ei hun ond hefyd o'r angen i loriau ddefnyddio'r safle am hyd at bedair awr ar ddeg y dydd.



**Trosodd.**

**<u>Opsiwn Dau – *Lifestyle ccc*</u>**

Yr ail opsiwn i *One Coal ccc* fyddai gwerthu safle *New Mill* i *Lifestyle ccc*, un o'r adeiladwyr tai diweddaraf yn y DU. Yn ddiweddar mae *Lifestyle ccc* wedi cwblhau datblygiad nad yw'n bell o *New Mill*. Mae'r cwmni hwn wedi ennill llawer o wobrau am y tai y mae'n eu hadeiladu sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Gydag enw da am ddefnyddio llafur medrus lleol lle bynnag y bo'n bosibl a chysylltiadau agos â'r Coleg Addysg Bellach lleol, mae *Lifestyle ccc* yn ei ystyried ei hun yn adeiladwr lleol mewn marchnad genedlaethol. Oherwydd ei ddull o adeiladu tai, mae prisiau'r cwmni yn tueddu i fod yn uwch na'r prisiau a godir gan ei gystadleuwyr mwy. Cafwyd problemau gyda gwaith rhai o'r is-gontractwyr mewn projectau adeiladu eraill sydd wedi achosi oediadau a rhoi straen ar sefyllfa ariannol *Lifestyle ccc*. Mae'r cwmni wedi cael ei orfodi i fenthyca ar raddfa sylweddol, fel y mae'r rhan isod o'i fantolen yn ei ddangos.

**Tabl 2**

| Eitem | Mantolen ar gyfer 31 Mawrth 2006 (£ miliwn) | Mantolen ar gyfer 31 Mawrth 2005 (£ miliwn) |
|---|---:|---:|
| Benthyciadau tymor hir | 63.6 | 46.6 |
| Cyfalaf cyfranddaliadau | 31.2 | 29.5 |
| Arian wrth gefn | 1.7 | 3.8 |
| Cyfalaf a ddefnyddiwyd | 96.5 | 79.9 |

Byddai angen i *One Coal ccc* wario £3 miliwn wrth baratoi'r safle fel y gallai *Lifestyle ccc* ddechrau adeiladu tai newydd. Ar ôl i'r holl dai gael eu cwblhau ymhen dwy flynedd byddai *One Coal ccc* yn derbyn taliad unwaith ac am byth o £9 miliwn. Fodd bynnag, roedd pryder yn parhau ymhlith Bwrdd *One Coal ccc* y gallai'r project fod yn rhy fawr i *Lifestyle ccc* ymgymryd ag ef ac y gallai fod yn rhaid iddo fuddsoddi mwy i sicrhau bod y datblygiad yn mynd yn ei flaen.

Mae'r cyngor lleol wedi cytuno'n frwd y dylai datblygiad newydd, gyda chymysgedd o fathau o dai fyddai'n addas ar gyfer prynwyr tro cyntaf yn ogystal â theuluoedd, fod yn flaenoriaeth i safle *New Mill*. Awgrymodd arolwg barn mewn papur newydd lleol fod 87% o'i ddarllenwyr y tu ôl i'r datblygiad ac ni fu'n syndod clywed arweinydd y cyngor yn dweud, "Byddwn ni'n symud nefoedd a daear i gael y datblygiad hwn yn *New Mill*."

Roedd Bwrdd *One Coal ccc* yn falch iawn o glywed hefyd y byddai'r project hwn fwy na thebyg yn golygu y byddai ysgol gynradd a chanolfan iechyd newydd yn cael eu hadeiladu ar gyfer y gymuned leol yn agos at y datblygiad tai hwn.

**<u>Opsiwn Tri – Y Parc Adwerthu</u>**

Byddai adeiladu parc adwerthu yn golygu y byddai *One Coal ccc* yn gosod yr adeiladau ar brydles i fusnesau eraill. Ni fyddai *One Coal ccc* yn cymryd unrhyw ran o'r elw y byddai'r busnesau eraill hyn yn ei wneud, ond byddai'n derbyn incwm oddi wrthynt. Roedd eisoes dau fusnes a oedd yn mynegi diddordeb yn y lleoliadau gorau ar y safle datblygu. Enwau'r busnesau hyn oedd *Better Price Cyf* a *Sports League Centres*.

Mae *Better Price Cyf* yn gadwyn o uwchfarchnadoedd sy'n fach ond yn ehangu'n gyflym. Mae ei gwefan yn nodi bod "angen rhagor o safleoedd arnom er mwyn parhau ein twf syfrdanol". Mae'r safle yn *New Mill* yn dda i *Better Price Cyf* am ei fod yn agos at boblogaeth o 15 000 o bobl o leiaf ac yn agos at ffyrdd da.

Ddeunaw mis yn ôl bu bron i uwchfarchnad arall gael ei hadeiladu yn agos at safle *New Mill*. Gwelodd y cyngor lleol hyn yn gyfle i ddatrys cyfleusterau siopa gwael yr ardal. Datblygodd dadl gyhoeddus chwerw, fodd bynnag, gyda gwrthwynebwyr yn honni "er bod angen gwneud rhywbeth i'n hardal, nid ydym eisiau uwchfarchnad oherwydd y bydd yn rhoi ergyd i'n siopau lleol". Comisiynwyd adroddiad oddi wrth y Fforwm Cynllunio Adwerthu Cenedlaethol a amcangyfrifodd y byddai datblygiad tebyg o ran maint i'r un a awgrymwyd yn *New Mill* yn golygu y byddai 276 o swyddi mewn siopau llai yn diflannu o fewn dwy flynedd.

Mae *Sports League Centres* yn darparu meysydd pêl-droed 5-bob-ochr gyda llifoleuadau a chanolfan gymdeithasol ar gyfer cwsmeriaid talu wrth chwarae. Mae ganddo hanes o lwyddiant mewn llawer o ardaloedd canol y ddinas ac mae wedi denu cryn dipyn o ddiddordeb oddi wrth yr heddluoedd oherwydd ei waith yn creu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad *(participation)* gan bobl ifanc.

Efallai y byddai *One Coal ccc* yn gallu casglu grantiau yr Undeb Ewropeaidd i helpu i ddatblygu'r safle ac adeiladu'r unedau y byddai busnesau fel *Better Price Cyf* a *Sports League Centres* yn eu rhentu. Gan gymryd y grantiau hyn i ystyriaeth, byddai'r costau buddsoddi o £15 miliwn yn gostwng i £11 miliwn. Roedd Rheolwr Cyllid *One Coal ccc* wedi paratoi rhagolygon incwm wedi'u seilio ar ganrannau 'cyfradd derbyn' safleoedd *(site 'take-up')* fel y dangosir isod:

**Tabl 3**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Canran o unedau yn y parc adwerthu sy'n cael eu gosod ar rent i fusnesau eraill | 50% | 75% | 100% |
| Incwm rhent i *One Coal ccc* bob blwyddyn | £1.9 miliwn | £2.4 miliwn | £3 miliwn |

**Ysgrifennwch adroddiad (gan ddefnyddio fformat adroddiad) at Gyfarwyddwr Eiddo *One Coal ccc*, yn cymharu'r tri opsiwn ac, ar sail eich dadansoddiad, gwnewch argymhellion ynghylch y ffordd fwyaf priodol i *One Coal ccc* fynd yn ei flaen er mwyn cyflawni'r nodau a roddwyd yn ei gynllun corfforaethol.** **[50]**

**D.S. Bydd angen i chi ategu eich argymhellion â dadleuon cadarn.**